| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **10 Ebrill 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol (Gwasanaethau Oedolion a Phlant) / Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Gwasanaeth: De'r Sir** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Partneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl Gogledd Cymru** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y cynnydd hyd yma ar y camau sydd eu hangen mewn ymateb i gynllun cyflenwi Law yn Llaw at Iechyd Meddwl ac yn tynnu sylw at yr heriau a blaenoriaethau i'r partneriaid dros y flwyddyn i ddod.

1.2 Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi gwybodaeth am Fwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru a sefydlwyd yn ddiweddar a'i swyddogaeth mewn perthynas â chefnogi a goruchwylio'r modd y cedwir at y cynllun cyflenwi ac y gwneir cynnydd mewn perthynas ag o.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i'r Aelodau bod BIPBC wedi cyflwyno adroddiad blynyddol Law yn Llaw at Iechyd Meddwl i Lywodraeth Cymru (Copi ynghlwm yn Atodiad 1) a thynnu sylw'r Aelodau at y camau sydd wedi'u hargymell ar gyfer 2014/15.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau'n derbyn yr adroddiad i wneud sylwadau arno ac yn nodi'r ymrwymiad parhaus i weithio mewn partneriaeth gyda BIPBC a phartneriaid eraill ar draws Gogledd Cymru i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl yn gyffredinol ac yn fwy penodol mewn perthynas â Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.

## 4. Manylion yr adroddiad.

4.1 Ym mis Hydref 2012 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru "Law yn Llaw at Iechyd Meddwl", strategaeth i'r boblogaeth gyfan ar gyfer iechyd meddwl a lles yng Nghymru.

4.2 Mae gweledigaeth y ddogfen uchod a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy yn cynnig agenda iechyd meddwl uchelgeisiol ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf, gyda phwyslais clir ar rannu cyfrifoldeb rhwng y gwasanaeth iechyd a llywodraeth leol.

4.3 Yn dilyn ymgynghori â budd-ddeiliaid, datblygodd Llywodraeth Cymru 6 canlyniad lefel uchel o fewn Law yn Llaw at Iechyd Meddwl. Rhoddir manylion ar y rhain isod ac maent yn cael eu datblygu ymhellach yn y ddogfen ei hun, lle mae canlyniadau mwy manwl yn cael eu nodi.

- Gwella iechyd meddwl a lles y boblogaeth gyfan
- Lleihau effaith problemau iechyd meddwl a/neu salwch meddwl ar unigolion, teuluoedd, gofalwyr, a'u cymunedau
- Lleihau anghydraddoldeb ymysg pobl sy'n dioddef salwch meddwl a phroblemau iechyd meddwl
- Cynyddu'r ymdeimlad o reolaeth sydd gan bobl sy'n derbyn asesiad, triniaeth a gwasanaethau dros benderfyniadau a wneir sy'n effeithio arnynt
- Dangos mantais economaidd tymor hir yr agwedd poblogaeth gyfan, pob oed at wella iechyd meddwl a lles a thrin salwch meddwl
- Gwella gwerthoedd, agweddau ac ymddygiad staff yn y sectorau cyhoeddus, annibynnol a Thrydydd Sector mewn perthynas ag iechyd meddwl a lles.

4.4 Cefnogir Law yn Llaw at Iechyd Meddwl gan Gynllun Cyflenwi ac mae'n amlinellu manylion y camau y bydd Llywodraeth Cymru ac asiantaethau partneriaeth yn eu cymryd i'w gyflawni, ynghyd â'r terfynau amser ar gyfer gwneud hyn.

4.5 Mae'r ddogfen yn nodi'r cyfraniadau sydd eu hangen gan Lywodraeth Cymru, llywodraeth leol, y gwasanaeth iechyd, y trydydd sector ac ystod o sectorau eraill gan gynnwys, er enghraifft tai, addysg, hyfforddiant a dysgu gydol oes, cyflogwyr, a'r system cyfiawnder troseddol.

4.6 Mae pennod olaf y ddogfen yn nodi sut y bydd y Strategaeth yn gweithio ar lefelau cenedlaethol a lleol a sut y bydd y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol newydd yn sicrhau ei fod yn cael ei gyflenwi.

4.7 Ym mis Mehefin 2013 sefydlodd BIPBC Fwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl Gogledd Cymru (BPIMGC) fel gofyniad Llywodraeth Cymru i oruchwylio'r modd y cyflwynir ac y gweithredir Law yn Llaw at Iechyd Meddwl a'i gynllun cyflenwi (gweler Atodiad 2 am y Cylch Gorchwyl) ac ym mis Hydref 2013, cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru.

4.8 Yn yr Adroddiad Blynyddol bydd Aelodau'n gweld cynnydd hyd yma wedi'i amlygu ynghyd â chyfeiriad at rai o'r heriau a'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi tystiolaeth o'r ymrwymiad parhaus i weithio ar y cyd gydag iechyd a phartneriaid eraill i gyflawni'r camau gweithredu angenrheidiol.

4.9 Er bod BPIMGC ond wedi'i sefydlu'n ddiweddar, mae hanes hir o weithio mewn partneriaeth yng Ngogledd Cymru mewn perthynas ag iechyd meddwl.

4.10 Dros y 12 mis nesaf bydd y BPIMGC yn datblygu gweledigaeth gliriach ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar draws Gogledd Cymru gan sicrhau bod yr isadeiledd, systemau a'r prosesau ymgysylltu angenrheidiol yn eu lle i nodi anghenion ynghyd â materion allweddol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, yn ogystal â monitro cynnydd yn erbyn y cynllun cyflenwi ac yn ymateb i flaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

4.11 Rhoddir gwybod am gynnydd yn ôl y cynllun cyflenwi i'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol fel y nodir yn 4.6 uchod.

## 5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at flaenoriaeth y Cyngor i sicrhau fod pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl. Yn ogystal, mae'n pwysleisio ymrwymiad y Cyngor i weithio gyda phartneriaid eraill i wella lles dinasyddion Sir Ddinbych.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw gostau wedi'u nodi ar hyn o bryd. Wrth i'r cynllun cyflenwi gael ei ddatblygu ymhellach, mae'n debygol y bydd goblygiadau ar gyfer meysydd gwasanaeth eraill, er enghraifft tai a gwasanaethau hamdden wrth i ni ddeall oblygiadau'r agenda lles ar gyfer y grŵp defnyddwyr gwasanaeth yn well.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylid atodi Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fel atodiad i'r adroddiad hwn.

Nid ydym yn gofyn i aelodau'r Pwyllgor Archwilio wneud penderfyniad ar hyn o bryd felly nid oes AEC wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, efallai y bydd angen ei wneud wrth i'r cynllun cyflenwi gael ei ddatblygu a'i weithredu ymhellach.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gafodd eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?

Trafodwyd Law yn Llaw at Iechyd Meddwl ynghyd â'r cynllun cyflenwi gan Grŵp Cynllunio Iechyd Meddwl Sir Ddinbych (mae'r grŵp hwn yn dwyn ynghyd budd-ddeiliaid perthnasol yn Sir Ddinbych ac yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr). Mae Cadeirydd Grŵp Sir Ddinbych ynghyd â chadeiryddion o grwpiau tebyg ar draws Gogledd Cymru yn cael eu gwahodd i ymuno â'r BPIMGC i sicrhau ymagwedd gynhwysfawr ar draws y rhanbarth.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Amherthnasol

## 10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried fod Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, camau gweithredu o ran y cynllun cyflenwi ac ymgysylltiad â gwaith BPIMGC yn allweddol i wella gwasanaethau iechyd meddwl ac yn sgil hynny, mae risgiau sylweddol i'r Awdurdod pe na baem yn cymryd rhan yn y prosesau hyn.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Amlinellir pwerau Archwilio mewn perthynas ag archwilio perfformiad gwasanaethau'r Cyngor ym mharagraff 6.3.4(b) y Cyfansoddiad.

**Swyddog Cyswllt:**
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes
Rhif Ffôn:  01824 706654